# Sut i gynllunio noson cwis

tenovus cancer care gofal canser

Dewch â’r gymuned at ei gilydd am noson o hwyl a chyffro, a chodi arian er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau cleifion canser a’u hanwyliaid.

## 1 Cynllunio ymlaen llaw

- Dewiswch leoliad - gall hyn fod yn eich cartref neu weithle, neu mewn canolfan gymunedol neu dafarn leol.
- Pennwch ddyddiad - rhowch ddigon o rybudd i bawb a sicrhewch i ddewis dyddiad sydd ddim yn gwrthdaro â digwyddiadau eraill yn eich cymuned.
- Ceisiwch hysbysebu'r digwyddiad o leiaf dau wythnos ymlaen llaw. Gosodwch bosteri yn safle’r cwis, yn y gymuned, ar hysbysfyrddau, mewn archfarchnadoedd, a’r gweithle. Defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol a rhannwch y wybodaeth ar lafar.
- Mae gennym ddeunyddiau Gofal Canser Tenovus gwych ar gael, fel baneri, balŵns, crysau-t a phamffledi er mwyn tynnu sylw at eich digwyddiad. Cysylltwch â ni: **fundraising@tenovuscancercare.org.uk** **029 2076 8863**
- Gofynnwch i fusnesau lleol gyfrannu gwobrau ar gyfer enillwyr. Gall wobr dda ddenu timau i gofrestru ar gyfer y digwyddiad.
- Ysgrifennwch eich cwis ymhell ymlaen llaw a pharatowch unrhyw beth ychwanegol y bydd angen i'ch gynorthwyo ar y noson. Os ydych chi’n cynnal rownd gerddoriaeth, efallai bydd angen system PA arnoch. Gwelwch adran dau am ein gynghorion ar gyfer ysgrifennu cwis!
- Ceisiwch greu tîm i helpu ar y noson. Bydd angen arweinydd cwis i ddarllen cwestiynau a chyhoeddi’r enillwyr, rhaid iddynt fod yn frwd ac yn gyfforddus â siarad yn gyhoeddus. Neilltuwch rolau ar gyfer dosbarthu’r taflenni cwis, casglu arian a chyfri pwyntiau.
- Pan yn trefnu unrhyw ddigwyddiad codi arian, plîs ystyriwch bwysigrwydd cynnal asesiad risg ac unrhyw yswiriant all fod ei angen arnoch. Cysylltwch â'n Tîm Codi Arian am gyngor a chefnogaeth.



## 2 Ysgrifennu'ch cwis

- Dylai’r cwis gynnwys rhwng pedwar ac wyth rownd, gyda tua 10 cwestiwn i bob rownd.
- Gwnewch yn siŵr bod eich cwis yn apelio at gymaint o bobl â phosib drwy gynnig rowndiau amrywiol. Ein hargymhellion fyddai Gwybodaeth Gyffredinol, Hanes, Daearyddiaeth, Chwaraeon, Llenyddiaeth, Ffilm a Theledu, a Cherddoriaeth.
- Mae digonedd o engreifftiau o gwisiau ar gael ar-lein. Porwch y we am syniadau.
- Os ydych yn teimlo’n frwd, beth am roi cynnig ar rownd lluniau neu gerddoriaeth? Os byddwch, sicrhewch i baratoi am ei fod yn debygol bydd rownd lluniau angen taflenni atodol, a falle system PA gyda chyswllt i’ch ffôn neu gyfrifiadur ar gyfer rownd cerddoriaeth.
- Thema - os yw'ch cwis yn ystod gŵyl neu ddathliad, gallwch osod thema iddo.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych un neu ddau gwestiwn ‘tie breaker’ wrth gefn, rhag ofn y bydd gan timoedd sgôr gyfartal!

## 3 Ar y noson

- Gosodwch bris ar gyfer cymryd rhan. Er enghraifft, £2 i bob person neu £10 i bob tîm. Casglwch y taliadau oddi wrth pobl cyn i'r cwis ddechrau.
- Dosbarthwch daflenni cwis ac ysgrifbinnau i bob tîm, a gofynnwch iddynt ddewis enw ar gyfer eu tîm.
- Unwaith bod pawb yn barod i ddechrau'r cwis, dylai arweinydd y cwis gyflwyno'r broses a rhoi cyfarwyddiadau clir.
- Argymhellwn gymryd egwyl hanner ffordd drwy'r cwis i alluogi pobl i brynu diodydd neu fynd i'r tŷ bach, yn enwedig os yw'r cwis yn hir.
- Ar ôl y rownd olaf, cymerwch egwyl fach gyflym arall i roi amser i chi cyfri'r pwyntiau cyn cyhoeddi'r enillydd a chyflwyno'r gwobrau!
- Os ydych eisiau codi rhagor o arian, beth am gynnal raffl ar y noson hefyd?
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n diolch i bawb am ddod a'ch helpu i godi'r cyfanswm mwyaf o arian bosibl. Dyma gyfle hefyd i sôn ychydig am Gofal Canser Tenovus a sut bydd y cwis yn helpu cleifion canser a'u hanwyliaid.

## 4 Ar ôl y digwyddiad

- Rhowch ddiolch i bawb a gynorthwyodd a rhoi gwybod iddynt faint o arian a wnaethoch!
- Danfonwch ddatganiad i'r wasg i'ch papur lleol, ynghyd ag unrhyw luniau a'r cyfanswm a godwyd.
- Ceisiwch gyfri'r arian rydych chi wedi'i godi mewn man diogel sydd ddim yn agored. Lle bo'n bosib, gwnewch yn siŵr fod yr arian yn cael ei gyfri a'i gofnodi gan ddau berson.
- Does dim ots faint o arian a godwyd, mae pob ceiniog yn bwysig! Mae sawl ffordd i'w dalu mewn:

**Drwy'r post -** anfonwch siec yn daliadwy i Tenovus Cancer Care, at:
Gofal Canser Tenovus, Llawr Cyntaf, Cwrt Jones, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1BR

**Dros y ffôn -** ffoniwch 029 2076 8850 i dalu gyda cherdyn dros y ffôn.

**Ar-lein -** talwch drwy ein wefan ar tenovuscancercare.org.uk/donate

## Cysylltwch â ni

Os bod angen unrhyw beth arnoch, rydyn ni yma i'ch helpu:

**fundraising@tenovuscancercare.org.uk**
**029 2076 8863**

*Diolch yn fawr*

am helpu ni i gynorthwyo pobl a'u hanwyliaid i fyw'n well â chanser.

**Pob lwc a mwynhewch!**

Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR / RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

tenovus cancer care / gofal canser

Yn codi arian ar gyfer Gofal Canser Tenovus
Elusen Gofrestredig Rhif 1054015

tenovuscancercare.org.uk